# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)03-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 29 Ionawr   2008

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn Bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

**1. Ymddiheuriadau a hysbysiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**(i) BC(3)02-08 (Cofnodion drafft) - dydd Mawrth 22 Ionawr 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

**3. Busnes i Ddod**

**Busnes yr Wythnos hon - BC(3)03-08(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r Prif Weinidog yn gwneud datganiad ar Gau Glofa'r Tŵr, yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai cynnig i atal Rheolau Sefydlog yn cael ei gyflwyno ddydd Mercher i ddwyn ymlaen gynnig i sefydlu Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan.  Byddai'r Pwyllgor yn cynnwys holl Aelodau'r Cynulliad a byddai'n cael ei Gadeirio gan y Llywydd.  Nododd y Pwyllgor Busnes y byddai'n cyfarfod ddydd Iau, 31ain Ionawr 2008, yn y Siambr i gynnal trafodaethau gydag Is Lywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Margot Wallström ac i roi ystyriaeth i faterion mewn perthynas ag Ewrop.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefniant busnes ar gyfer 29 a 30 Ionawr 2008.

3.4 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn digwydd dim cynt na 5pm ddydd Mercher ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

Amserlen 3 wythnos ar gyfer busnes y Llywodraeth - BC(3) 03-08 (p2)

3.5 Nododd y Pwyllgor yr amserlen 3 wythnos ar gyfer busnes y Llywodraeth.

Amserlen 3 wythnos ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth - BC(3)03-08(p3)

3.7 Cytunodd y Pwyllgor y caiff dadl ar Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig Helen Mary Jones ar Yrfaoedd ei threfnu ar gyfer yr 20fed o Chwefror 2008.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.9 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth

**4. Deddfwriaeth**

**Papur yn nodi'r diweddaraf ar Hynt Deddfwriaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol - BC(3)03-08(p4)**

4.1 Fe nododd y Pwyllgor y papur yn rhoi'r diweddaraf ar hynt Deddfwriaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol.

**5. Unrhyw fater arall**

5.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod unwaith eto fater aelodaeth o Bwyllgorau a thrafododd newidiadau posibl i faint rhai pwyllgorau. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar newid yn y nifer o Aelodau ar y Pwyllgor Cyfle Cyfartal a'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth. Cytunwyd y byddai gan bob Pwyllgor 5 Aelod. Dywedodd y Cadeirydd y byddai cynnig i weithredu hyn yn cael ei gyflwyno'r wythnos nesaf unwaith bo manylion diwygiedig yr aelodaeth wedi'i ddarparu gan y pleidiau.

5.2 Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cais a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cyllid i gyfarfod yn fwy aml.  Cytunodd y Pwyllgor Busnes i slot ychwanegol gael ei osod yn amserlen y Pwyllgor Archwilio unwaith ym mhob cyfnod 4 wythnos. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ystyried y cais gan y Pwyllgor Cyllid ar wahân unwaith bo'r Pwyllgor Cyllid wedi cyflwyno adroddiad ar y modd mae proses y gyllideb yn gweithio.

5.3 Cadarnhaodd y Pwyllgor Busnes unwaith eto ei ddymuniad i unrhyw bwyllgorau sy'n dymuno trefnu gweithgaredd ffurfiol y tu allan i'r amserlen a gytunwyd, neu weithgaredd a allai gael effaith ar drafodion ffurfiol eraill, i ofyn am gymeradwyaeth gan y Pwyllgor Busnes.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**